
**Tasg 3**

# Crysau T

1. Edrychwch ar y llun yma.
   Beth ydych chi'n gallu gweld?
   Edrychwch yn ofalus ar y sloganau ac ysgrifennwch nodiadau.



2. Rydych chi'n gweithio i gwmni sy'n gwneud crysau T Cymraeg.
   Cynlluniwch grys T Cymraeg.



**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| cwmni | company | cynllunio | (to) design |

3. Mae'r cwmni eisiau gwneud llawer o'r crysau T yma a'u gwerthu nhw. Rhaid rhoi gwybodaeth am y crys T ar y we. Llenwch y grid:

| **CRYS T GYDA'R SLOGAN: ...................................** | |
|---|---|
| Pa liwiau?<br><br>(e.e. mae'r crys T ar gael mewn coch, du, gwyrdd ac ati) | |
| Pa faint?<br><br>(e.e. bach / canolig / mawr) | |
| Pa ddefnydd?<br><br>(e.e. polyester, cotwm, polyester a chotwm) | |
| Y pris?<br><br>(Oes disgownt am brynu mwy nag un crys T? | |

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ar gael | available | cotwm | cotton |
| defnydd | material | | |

4. Ysgrifennwch ddarn ar gyfer y we. Rhaid ysgrifennu mewn paragraffau. Cofiwch ddweud:
   - pa slogan
   - pa liwiau
   - pa faint
   - pa ddefnydd
   - y pris

**5. Ewch i grŵp o 4.**

a. Rhaid i bawb ddisgrifio'r crys T.
b. Rhaid rhoi gwybodaeth am y crys T (e.e. pa faint, y defnydd ac ati)
c. Rhaid i bawb fynegi barn am y crysau T.
c. Mae pawb yn y grŵp yn cael £30.00.
   Rhaid i bawb brynu un neu fwy o'r crysau T. Rhaid rhoi rheswm dros ddewis crys T arbennig.

**Dw i eisiau prynu …**
**achos …**

**Hoffwn i brynu …**
**achos …**

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| dewis | (to) choose |